

# Amddiffyn Plant

Gwybodaeth a Chyfarwyddyd i  
Ddarparwyr Gofal Plant a Sefydliadau  
Gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd  
Family Information Service





Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Wasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd Sir Gaerfyrddin ac mae'n cynnwys Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Gellir cael golwg ar fersiwn cyflawn o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'i lawrlwytho o [www.awcpp.org.uk](http://www.awcpp.org.uk)

Estynnir diolch i Wasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd Abertawe am gymorth wrth gynhyrchu'r llyfryn hwn

Mae gan blant yr hawl i gael eu  
hamddiffyn rhag pob math o drais;  
rhaid eu cadw'n ddiogel rhag niwed.  
Rhaid iddynt gael y gofal priodol gan y  
rhai sydd â gofal amdanynt.

**Erthygl 19 - Confensiwn y  
Cenhedloedd Unedig 'Hawliau  
Plentyn'**

## Cynnwys

- Cyflwyniad
- Egwyddorion Allweddol
- Cyfrinachedd
- Effaith niwed ar blant
- Diffiniad o gam-drin ac esgeuluso plant
- Dynodi Niwed Arwyddocaol
- Adnabod Cam-drin Plant
- Dangosyddion Cam-drin Plant
- Salwch Ffug
- Beth ddylech chi ei wneud os ydych yn meddwl bod plentyn mewn pergyl?
- Cam-drin gan gydweithwyr, oedolion
- Atgyfeirio
- Ar ôl yr ymchwiliad
- Eich diogelu eich hunan rhag honiadau
- Cadw cofnodion
- Manylion Cyswllt Defnyddiol

## Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn, sy'n seiliedig ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 wedi'i lunio i helpu'r holl ddarparwyr gofal plant a sefydliadau gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin i gael dealltwriaeth glir o faterion amddiffyn plant ac i ymgysgu â'r camau sy'n rhaid iddynt eu cymryd mewn achosion o esgeulustra a/neu niwed honedig neu a amheuir.

Ni fwriedir i'r llyfryn hwn gymryd lle'r fersiwn llawn o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan y gellir cael golwg arno a'i lawrlwytho o [www.awcpp.org.uk](http://www.awcpp.org.uk) a byddwn yn cynghori'n gryf i'r holl ddarparwyr ymgysgu â'r ddogfen yn ei chyfanrwydd.

Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn y modd gorau posibl, credir bod angen i chi fel gofalwyr deimlo eich bod wedi'ch grymuso i weithredu, ac ystyrir mai'r hyn sy'n allweddol i'r grymuso hwnnw yw gwybodaeth.

Bydd Gwarchodwyr Plant Cofrestredig wedi cael peth hyfforddiant ar amddiffyn plant yn ystod eu cwrs cyn-gofrestru. Os na chwsoch yr hyfforddiant hwnnw yna mae'n rhaid ichi ddod â hynny i sylw'r Gweithiwr Datblygu sy'n eich cefnogi chi.

Mae cyrsiau hyfforddi perthnasol ar gael i'r holl ddarparwyr gofal plant drwy Dîm Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar.

Cofiwch ddarllen y llawlyfr hwn a dod yn gyfarwydd â'i gynnwys er mwyn ichi allu troi ato'n rheolaidd. Yn naturiol, dylid rhoi gwybod i weithwyr newydd am gynnwys y llawlyfr.

## Egwyddorion Allweddol

Ceir yr egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i waith gyda phlant a theuluoedd yn Neddf Plant 1989 a 2004 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn sail i'w gwaith gyda phlant a theuluoedd yng Nghymru. Maent wedi sefydlu 7 o amcanion craidd a byddant yn gweithio trwy ddefnyddio'r rhain er mwyn sicrhau bod pob plentyn:

1. Yn cael dechrau da i fywyd;
2. Yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, heb orfod dioddef cael eu cam-drin na'ŷ herlid na chael unrhyw un yn cam-fanteisio arnynt;
4. Yn cael y cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol;
5. Yn cael rhywun i wrando arnynt, cael eu trin â pharch, a chael rhyddid i gydnabod eu hil a'ŷ hunaniaeth ddiwylliannol;
6. Yn cael byw mewn cartref diogel ac mewn cymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol; a
7. Yn osgoi dioddef anfantais oherwydd tlodi.

## Cyfrinachedd

Ym mhob achos lle credir bod plentyn wedi cael ei gam-drin neu wedi dioddef esgeulustra, neu bod y plentyn mewn perygl o hynny, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i rannu gwybodaeth berthnasol â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol. Ym mhob sefyllfa o'r fath rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y plentyn cyn pob ystyriaeth arall.

Rydym yn sylweddoli y gallai hyn eich rhoi mewn sefyllfa anodd ond peidiwch ag oedi cyn rhannu eich pryderon ag eraill, a dylid atgyfeirio plentyn cyn gynted ag y bydd problem, amheuaeth neu bryder am y plentyn yn dod yn amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr, oherwydd mae'n bosibl mai'r wybodaeth hon fydd y darn allweddol yn y jig-so. Fel arfer nid yw rhannu pryderon yn arwain at symud plentyn. Yn y mwyafrif o achosion bydd

rhieni'n cael cyngor a chymorth i helpu i leihau'r perygl o niwed i'w plant, ond ar yr un pryd yn parhau i gynnal yr uned deuluol.

Fe'ch cynghorir i roi gwybod i rieni a phlant yr ydych yn gweithio gyda nhw, ar ddechrau eich perthynas â nhw, y bydd unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i amddiffyn plant yn cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol. Mae'n bwysig peidio ag addo cyfrinachedd llwyr i blentyn yn y gobaith o annog plentyn i ddatgelu gwybodaeth. Ni ellir cadw addewid o'r fath ac yn y diwedd bydd rhaid ichi dorri'ch addewid i'r plentyn.

## Effaith Niwed ar Blant

Mae cam-drin ac esgeuluso plant yn tanseilio diogelwch, hyder a hunan-barch yr unigolyn. Yn benodol gall arwain at y canlynol:

- Marwolaeth neu anaf parhaol
- Methu â chyflawni potensial
- Problemau ymddygiadol difrifol

Gall yr effaith bara am amser hir a bod yn ysgytwol nid yn unig i'r plentyn ond i'r gymdeithas gyfan.

## Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant

Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn ei niweidio, neu'n methu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu niweidio mewn teulu neu mewn sefydliad neu gymuned, gan rai y maent yn eu hadnabod, neu'n fwy anaml, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed gael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod angen cael ei amddiffyn drwy gynllun rhyngasiantaethol ar gyfer amddiffyn plant. Gall y plentyn fod heb ei eni a dal fod mewn perygl o gael ei niweidio yn y dyfodol.

### • Cam-drin Corfforol

Gall hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn rhyw ffordd arall.

Hefyd gellir achosi niwed corfforol os bydd rhiant neu rywun sy'n rhoi gofal yn ffugio neu'n peri salwch mewn plentyn y maent yn gofalu amdano.

### • Cam-drin Emosiynol

Os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol ac yn barhaus i gymaint graddau nes ei fod yn achosi effeithiau andwyol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall hyn gynnwys cyfleu i'r plentyn eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol neu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n unig i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion rhywun arall. Gall olygu bod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad yn cael eu gosod ar blant. Efallai gall olygu achosi plant i deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft drwy fod yn dystion i gam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu drwy gamfanteisio ar blant neu eu llygru. Mae pob math ar gam-drin plentyn yn cynnwys rhyw lefel o gam-drin emosiynol, er iddo ddigwydd efallai ond unwaith yn unig.

### • Cam-drin Rhywiol

Mae'n cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn gwybod beth sy'n digwydd neu beidio. Gall y gweithredoedd gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol. Gallant gynnwys gweithredoedd heb gyswllt corfforol, megis cael plant i wyllo, neu fod yn rhan o gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wyllo gweithredoedd rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

### • Esgeulustra

Methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol, sy'n debygol o arwain at niweidio iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol. Gall gynnwys rhiant neu rywun sy'n rhoi gofal yn methu â darparu bwyd, cysgod a dillad digonol, yn methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu'n methu â sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Hefyd gall gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i, anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Yn ogystal, gall esgeulustra ddigwydd yn ystod bechiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau.



## Dynodi Niwed Arwyddocaol

Mae Deddf Plant 1989 yn cyflwyno'r cysyniad o niwed arwyddocaol fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrraeth orfodol ym mywyd teulu er mwyn amddiffyn plant. Diffinnir niwed arwyddocaol yn y ddeddfwriaeth fel cam-drin neu amharu ar iechyd a datblygiad. Mae'n disgrifio effaith camdriniaeth neu esgeulustra rhywiol, corfforol, emosiynol, neu gyfuniad o wahanol fathau. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Plant 1989 adran 47 (1) (b) i wneud ymholiadau, neu achosi ymholiadau i gael eu gwneud, lle mae ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw, neu sydd i'w gael yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol.

Nid oes dim meini prawf absoliwt y gellir dibynnu arnynt wrth farnu beth yw niwed arwyddocaol. Gall un digwyddiad difrifol o gam-drin, megis digwyddiad o gam-drin rhywiol neu ymosodiad treisgar, achosi niwed arwyddocaol i blentyn. Fodd bynnag, yn fwy aml mae niwed arwyddocaol yn digwydd o ganlyniad i grynhoed o ddigwyddiadau dros gyfnod hir, sy'n tarfu ar neu'n newid neu'n niweidio datblygiad corfforol a seicolegol plentyn. Mae'r niwed arwyddocaol sy'n digwydd o ganlyniad i effaith difaol cam-drin dros gyfnod hir yn debygol o gael dylanwad dwys ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol.

## Adnabod Cam-drin Plant

Gall cam-drin plant ddigwydd o ganlyniad i weithred uniongyrchol tuag at blentyn neu fethiant gan y rhai sy'n gyfrifol am y plentyn i ddarparu gofal rhesymol, neu gall fod yn gyfuniad o'r ddau.

Gall camdrinwyr plant fod yn rhieni, aelodau eraill o'r teulu, gofalwyr, cymdogion, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant, neu unrhyw oedolyn arall y mae'r plentyn neu'r teulu yn ei adnabod. Cofiwch mai anaml iawn y bydd plentyn yn cael ei gam-drin gan ddieithryn. Hefyd gall plentyn gael ei gam-drin gan blentyn arall.

Dylid cofio nad anaf difrifol yw'r arwydd cyntaf o angenrheidrwydd fod plentyn yn cael ei gam-drin. Gall amheuron godi'n sgil digwydd clywed sylw gan blentyn, aelodau o'r teulu neu ffrindiau, neu drwy sylwi ar newidiadau yn ymddygiad neu ymatebion plentyn. Rhaid i oedolion fod yn effro i'r posibilrwydd y gall plentyn fod yn cael ei gam-drin, waeth pa mor annhebygol y mae hynny'n ymddangos.

## Dangosyddion Cam-drin Plant

Mae'r canlynol yn rhai pwyntiau cyffredinol sy'n dangos y posibilrwydd fod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso:

- Diffyg ffyniant a chyrraedd cerrig milltir datblygiad.
- Oedolyn sydd â disgwyliaidau o ran y plentyn sy'n afrealistig ac amlwg iawn.
- Plentyn yn ymddwyn yn ofnus neu'n mynd i'w gragen neu'n dangos tueddiadau ymosodol.
- Oedi cyn cael cyngor neu driniaeth feddygol sy'n amlwg yn angenrheidiol.
- Plentyn a gofawyr yn disgrifio neu'n egluro sut y digwyddodd anaf mewn modd sy'n croesddweud ei gilydd.
- Gofawyr ddim yn ymwybodol o anaf neu ddigwyddiad neu'n ei wadu.
- Hanes neu dystiolaeth arall o anafiadau dro ar ôl tro.
- Mynychu clinig neu ysbyty dro ar ôl tro, neu gael ei dderbyn yn aml i'r ysbyty.
- Lefel isel iawn o hunan-barch.
- Gofalwr yn dangos dim anwyldeb ond llawer o feirniadaeth tuag at blentyn.

Dylech fod yn effro i'r ffaith fod teuluoedd weithiau'n ymneilltuo o bopeth o'u cwmpas ac yn ceisio cuddio tystiolaeth bosibl o gam-drin. Mae hyn yn achosi pryder yn arbennig os bu cysylltiad agored â nhw cyn hynny.

## Sbectrwm Salwch Ffug

(a elwir hefyd yn Syndrom Munchausen drwy ddirprwy neu Ffugio Anhwylder Pediatrig)

### Beth y dylid ei ystyried

Mae hyn yn digwydd lle mae plentyn yn cael ei gyflwyno i ofal meddygol gyda salwch sydd wedi cael ei greu gan ofalwr sy'n oedolyn. Mae'r oedolyn yn caniatáu neu'n ceisio cael ymchwiliad a thriniaeth feddygol ddianghenraid.

Pan fydd y plentyn yn cael gofal ymaith o'r gofalwr e.e. yn yr ysbyty, nid yw arwyddion y salwch i'w gweld.

Ystyrir yn gyffredinol mai'r rheswm am y cam-drin hwn yw bod y gofalwr yn cael teimlad o bwysigrwydd neu hunan-werth sy'n deillio o'r sylw a roddir i salwch y plentyn.

Gall y canlynol fod yn bresennol:

- Gorliwio salwch a symptomau go iawn;
- Ffugio symptomau e.e. apnoea cwsg, ffitiau, pyliau asthma, alergedd;
- Ffugio arwyddion, profion a chofnodion, er enghraifft ychwanegu gwaed neu siwgr at samplau wrin, cofnodion tymheredd anghywir;
- Cynhyrchu salwch corfforol e.e. gwenwyno, mygu, newynu neu ddeiet amhriodol;
- Baban neu blentyn yn marw'n sydyn ac yn annisgwyl;
- Honiadau anghywir o gam-drin;
- Annog neu gael y plentyn i ymddangos yn anabl, gan gynnwys anabledd dysgu a/neu gael triniaethau neu offer arbenigol diangen ar gyfer y plentyn.

Os amheuir salwch ffug yna dylid atgyfeirio'r plentyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Beth ddylech chi ei wneud os ydych yn meddwl bod plentyn mewn pergyll?

Peidiwch ag oedi. Nid mater o ddewis ar ran yr unigolyn yw hyn. Os ydych yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin/esgeuluso neu os bydd rhywun yn dweud wrthyich eu bod nhw neu blentyn/person ifanc arall yn cael ei gam-drin/ esgeuluso:

- Dangoswch eich bod chi wedi clywed yr hyn maent yn ei ddweud a'ch bod yn trin eu honiadau o ddifri;
- Ceisiwch annog y plentyn i siarad ond peidiwch ag awgrymu na gofyn cwestiynau arweiniol;
- Dylech osgoi gwneud i'r plentyn ddweud ei hanes sawl gwaith wrth wahanol bobl;
- Esboniwch pa gamau y mae'n rhaid ichi eu cymryd, gan ddilyn gweithdrefnau a gytunwyd;
- Peidiwch ag addo cadw'r hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthyich yn gudd neu'n gyfrinachol. Mae gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r bobl/sefydliadau perthnasol. Nid yw riportio pryderon yn golygu eich bod yn camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth;
- Ysgrifennwch yr hyn a ddywedwyd wrthyich gan roi'r union eiriau — rhaid gwneud hyn o fewn 24 awr;
- Nodwch y dyddiad, amser, lle a'r bobl sy'n bresennol yn y drafodaeth;
- Peidiwch â herio'r camdriniwr honedig;
- Dylech riportio eich pryderon i'ch Rheolwr Llinell neu (os yw'n briodol) yr aelod o staff yn eich sefydliad sydd â chyfrifoldeb penodedig dros amddiffyn plant;
- Os ydych yn Warchodwr Plant neu'n aelod o staff â chyfrifoldeb am amddiffyn plant yn eich sefydliad yna rhaid ichi sicrhau bod eich pryderon yn cael eu riportio ar unwaith i'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd yn y Swyddfa leol. PEIDIWCH AG OEDI;
- Peidiwch â phoeni eich bod efallai wedi gwneud camgymeriad. Mae'n well eich bod yn trafod eich pryderon â rhywun sydd â'r profiad i ddelio â'r sefyllfa.

Mae'r holl wybodaeth uchod yn gyngor perthnasol iawn pwy bynnag fo'r camdriniwr honedig; ond os yw ymddygiad cydweithiwr yn peri pryder ichi, yna mae'r gweithdrefnau rhywfaint yn wahanol.

## **Ymddygiad unrhyw gydweithiwr, oedolyn (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc sy'n peri pryder ichi**

Rhaid bod yn wylriadwrus wrth recriwtio staff neu wirfoddolwyr gan fod achosion diweddar yn dangos y gall plant gael eu niweidio gan y rhai sy'n gweithredu mewn rôl gofalwr.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n hanfodol bod amheuron/honiadau o gam-drin a/neu esgeuluso plant yn cael eu hymchwilio'n gwbl gyfrinachol er mwyn i wybodaeth gael ei rhoi'n rhydd a chyflawn, i leihau pryderon o erledigaeth ac amddiffyn hawliau'r person a amheuir.

Hefyd bydd rhaid ystyried pa gamau y dylid eu cymryd o ran plant eraill y mae gan y person a amheuir gysylltiad parhaus â nhw neu gysylltiad â nhw heb oruchwyliaeth. Rhaid i hyn gynnwys:

- Plant a theulu'r person hwnnw
- Unrhyw weithgareddau cymunedol y mae'r person hwnnw'n ymgymryd â nhw yng ngoleuni'r amheuaeth/honiad o gam-drin/esgeuluso plant.

Os ydych yn ystyried nad yw eich rheolwr wedi cymryd camau digonol mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd, yna dylid cyfeirio'r amheuron at Reolwr Bwrdd Diogelu Plant Sir Gaerfyrddin. Yn sicr dylai hyn ddigwydd os ydych yn amau bod y rheolwr / person â gofal yn rhan o'r cam-drin neu'n cydweithredu yn y cam-drin.

Mae lleoliadau gofal plant yn dod o dan reolaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a bydd rhaid rhoi sylw, a hynny'n fuan yn yr ymchwiliad, i bosibilrwydd atal y cofrestriad a pha wybodaeth y bydd rhaid ei rhannu â rhieni.

Ni ddylid gwaredu/atal staff yn awtomatig a bydd yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr amheuaeth/honiad ac ar yr angen i amddiffyn plant.

## Atgyfeirio

Dylid atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y daw problem, amheuaeth neu bryder am blentyn yn amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid atgyfeirio i Dîm Dyletswydd Brys y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu. Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd sy'n derbyn yr atgyfeiriad gael cymaint â phosibl o'r wybodaeth ganlynol gennych chi sef yr atgyfeiriwr:

- Natur y pryderon;
- Sut a pham y cododd y pryderon hynny;
- Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni (neu oedran) y plentyn;
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni/oedrannau aelodau'r teulu, ynghyd ag unrhyw enwau eraill a ddefnyddir ganddynt neu y gelwir nhw;
- Enwau a pherthynas pob un sydd â chyfrifoldeb rhiant, os yw'n hysbys;
- Gwybodaeth ynghylch unrhyw oedolion eraill sy'n byw yn y cartref;
- Gwybodaeth ynghylch gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu, gan gynnwys enw ysgol a meddyg y plentyn;
- Unrhyw wybodaeth sydd gennych ynghylch anghenion datblygiad y plentyn a gallu ei rieni neu ofalwyr i ymateb i'r anghenion hynny yng nghyd-destun amgylchedd ehangach y teulu;
- Unrhyw wybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch staff.

Cyfrifoldeb gweithwyr a gweithwyr proffesiynol unigol yw sicrhau bod eu pryderon amddiffyn plant yn cael eu cymryd o ddifri a'u hymchwilio. Rydych chi'n gyfrifol am eich rôl chi yn y broses amddiffyn plant, ac os ydych yn parhau i fod yn bryderus am blentyn yna dylech ailatgyfeirio'r plentyn a/neu ddod â'r mater ar unwaith i sylw Uwch-reolwr y Gwasanaethau Cymdeithasol neu os yw'n absennol yna i sylw Rheolwr Tîm y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am achos y plentyn. Ym mhob achos o'r fath rhaid ichi sicrhau y dylid rhoi gwybod i'ch Rheolwr Llinell a'r gweithiwr proffesiynol a enwir sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

## Ar ôl yr Ymchwiliad

Lle cynhaliwyd ymchwiliadau amddiffyn plant a lle mae pryderon ynghylch niwed sy'n parhau, mae'n gyffredin galw Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant. Cynhelir y cyfarfod hwn er mwyn gallu casglu ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch plentyn a'i deulu. Gan mai chi yw'r atgyfeiriwr mae'n bosibl y cewch eich gofyn i fynychu cynhadledd amddiffyn plant a pharatoi adroddiad a ddylai gael ei anfon at Gadeirydd y Gynhadledd. Bydd hwn yn cynrychioli eich barn chi os na allwch chi fod yn bresennol.

Dylai'r adroddiadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol a dylent gynnwys pryderon a nodweddiad cadarnhaol ynghylch y plentyn a'r teulu.

I gloi, cofiwch fod gan bob plentyn hawl i gael ei amddiffyn rhag unrhyw esgeulustra, niwed corfforol, rhywiol ac emosiynol a'i bod yn gyfrifoldeb pawb i rannu'r pryderon sydd ganddynt am blentyn.

## Eich Diogelu eich Hunan rhag Honiadau

Mae gan oedolion ddyletswydd i leihau cymaint â phosibl ar unrhyw berygl o niwed i blant yn eu gofal. Gellir lleihau cyfleoedd i gam-drin drwy osgoi sefyllfaoedd lle rydych ar eich pen eich hun, e.e. gadael drysau'n agored er mwyn i eraill allu eich gweld, aros yng nghwmni eraill ac ati.

Gall chwarae gwirion corfforol gael ei gamddechongli gan blentyn sydd wedi cael ei gam-drin eisoes fel ymgais i'w cam-drin nhw.

Os ydych yn cyflogi, neu'n defnyddio staff gwirfoddol, byddwch yn llym yn eich proses dethol staff. Dylech gael o leiaf un geirada a chwiliwch i mewn i brofiad pobl o weithio gyda phlant. Ychydig iawn o bobl sy'n mynd ati'n fwriadol i niweidio plant, ond mae'r niwed a achosant yn enfawr. Byddwch yn effro i'r hyn allai ddigwydd. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch cyflogi staff ac ati, ewch i [www.ccwales.org.uk](http://www.ccwales.org.uk)

## Cadw cofnodion

Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlr mewn iaith syml yn rhan hanfodol o'ch cyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, ac mae'n rhoi sail gref i arferion amddiffyn plant.

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant gael polisïau a gweithdrefnau sy'n nodi trefniadau ar gyfer cadw, storio a dinistrio cofnodion electronig a phapur.

Dylai cofnodion:

- Ddefnyddio iaith glir a syml;
- Cael eu llofnod, a rhoi dyddiad ac amser arnynt;
- Bod yn gryno a darllenadwy a chydymffurfio â safonau a gofynion proffesiynol;
- Bod yn gywir o ran ffeithiau a gwahaniaethu rhwng ffaith, safbwynt, barn a damcaniaeth;
- Bod yn drefnus a chynnwys cofnodion a chronolegau a chrynodebau manwl gan gynnwys pob cyswllt;
- Bod yn gynhwysfawr;
- Cofnodi'n glir bob barn a phob cam a phenderfyniad a wnaed;
- Egluro lle gwnaed penderfyniadau ar y cyd ar draws asiantaethau, neu a gymeradwywyd gan reolwr;
- Cofnodi trafodaethau goruchwyllo ffurfiol ac anffurfiol;
- Cofnodi'r cyfarwyddiadau a roddwyd a'r hyn a gytunwyd neu a anghytunwyd mewn ymgynghoriad â Goruchwylwyr neu Reolwyr.



## Rhifau Ffôn Cyswllt Defnyddiol

Am holl gyfeiriadau Gwasanaethau Addysg a Phlant  
Cysylltwch â:

**Tim asesu**

**Llanelli 01554 742322**

**Caerfyrddin/Dinefwr 01558 825485**

**Gwasanaeth argfwng tu allan I oriau 01558 824283**

**Bwrdd Lleol Diogelu Plant Rheolwr**

**5 Heol Spilman**

**Caerfyrddin**

**SA31 1LE**

**01267 222759**

**Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin**

**Tŷ Llwyn Pisgwydd**

**Lôn Pisgwydd**

**Caerfyrddin**

**01267 224224**

**Yr Heddlu**

**Caerfyrddin 0845 330 2000**

## **Rhifau Ffôn Cyswllt Defnyddiol**

### **Ysbytai**

**Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin  
01267 235151**

**Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli 01554 756567**

### **Ffôn Di-dâl**

**NSPCC - Llinell Amddiffyn Plant 0800 800 500**

**Childline 0800 1111**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
(CSSIW)**

**01267 223402**

**Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd Sir Gaerfyrddin (FIS)**

**01267 224224**